National Literacy Trust

Change your story

# Cyfrinachau Gwastadeddau Gwent




P
1
2
3
4
5
6
7
8

**Annwyl Gyrchwyr Stori,**

Ysgrifennwyd y Cyrch Stori yma'n arbennig i chi.

Mae antur heddiw'n dilyn ein pedwar ffrind - Molly, Dylan, Jamila, a Luca – wrth iddyn nhw grwydro Gwlyptiroedd Casnewydd, sy'n rhan o Wastadeddau Gwent. Ymunwch â nhw ar eu hanturiaethau wrth iddyn nhw ddod o hyd i eitem ryfedd sy'n eu harwain ar antur trwy'r gwlyptiroedd ar hyd yr oesoedd. Wrth i chi ddarllen y stori, dilynwch ôl eu traed a gwneud y gweithgareddau. Joiwch, mwynhewch yr awyr iach ac, yn bwysicaf oll, defnyddiwch eich dychymyg!

**Man cychwyn:** Y fynedfa i'r llwybr yn y Warchodfa Gwlyptiroedd

**Hyd:** Tuag awr

**Lefel gweithgarwch:** Mynd am dro ysgafn

**Ystod oedran:** tua 7-10 oed


## Diolchiadau

Crëwyd y Cyrch Stori hwn gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol gyda chyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chefnogaeth Lefelau Byw, Roots Newport a Naz Creates.

Ysgrifennwyd y stori gan Wendy Booth a'i darlunio gan Andy O'Rourke.

**Supported by**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



The National Literacy Trust is a registered charity no. 1116260 (England and Wales) and SC042944 (Scotland).

# Croeso i Wastadeddau Gwent

Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd arfordirol arbennig yn ne Cymru. Amser maith yn ôl, fe wnaeth pobl adeiladu morgloddiau a ffosydd i amddiffyn y tir rhag llifogydd. Mae'r sianeli hyn, sy'n cael eu galw'n ffosydd draenio, yn dal i ffurfio'r tir heddiw. Mae'r Gwastadeddau'n gartref i adar, pryfed a phlanhigion, ac maen nhw'n dal llawer o straeon o'r gorffennol – o adeg y Rhufeiniaid hyd heddiw. Mae cerdded yma'n gyfle i archwilio natur, sylwi ar fanylion bach, a dychmygu sut oedd pobl yn arfer byw.



**Y Llwybr**

Mae Molly, Dylan, Jamila, a Luca yn gyffro i gyd wrth iddyn nhw adael y Ganolfan Ymwelwyr. Mae Dylan wedi dod â'i barot anwes, Pete, gydag ef. Mae sach deithio Molly yn llawn o bethau 'defnyddiol'. Mae gan Luca dortsh fach yn ei boced, ac mae Jamila wedi dod â'i gwau gyda hi rhag ofn iddi fwrw glaw.

Maen nhw'n dilyn y llwybr i'r gwlyptiroedd.

Saib Stori 1

# Y Bont Raff

Yn fuan, mae'r ffrindiau'n mynd heibio i'r ardal lle mae seddau a byrddau, ac yn cyrraedd pont raff. Mae'n symud ychydig wrth iddyn nhw gamu arni. Mae Dylan yn gadael i'w barot hedfan yn rhydd ac mae'n glanio ar y rhaff uchaf. "Dewch!" meddai Luca, ac mae'n eu harwain nhw ar draws y bont raff.

## EICH TRO CHI:

Cerddwch yn ofalus ar draws y bont. Sut mae'n teimlo o dan eich traed?

Cyfrwch eich camau wrth i chi groesi.

Cymerwch anadl ddofn, araf, cyn i chi gamu oddi arni.

Ysgrifennwch ddau air i ddisgrifio sut mae'r bont yn symud.



Saib Stori 2

# Trychfilod Bach



Ar ôl y bont raff, mae yna arwydd ar gyfer pwll y trychfilod bach. Maen nhw'n sefyll ar y llwyfan gwylio wrth ymyl y dŵr.

"Dwi'n gobeithio bod penbyliaid yn y dŵr," meddai Dylan.

"Edrychwch! Broga!" mae Jamila'n gweiddi, "Mae'n rhaid bod penbyliaid!" Wrth iddi gamu'n ôl, mae hi'n sefyll ar fricsen blastig sydd wedi syrthio allan o fag Molly, "Molly Mes!" maen nhw'n chwerthin, wrth i Molly godi ei bricsen.




## EICH TRO CHI:

Ysgrifennwch enwau dau greadur rydych chi'n eu gweld.

Dewiswch un a disgrifiwch sut mae'n edrych neu'n symud.

Fe wnaeth Molly ollwng bricsen blastig. Pam mae'n bwysig peidio â gollwng sbwriel?



Saib Stori 3

# Y Caban Pren



Mae'r ffrindiau'n troi'n ôl i'r llwybr ac yn mynd i'r chwith tuag at y caban pren.

"Gadewch i ni fynd i mewn i'r caban yna i orffwys," mae Pete yn awgrymu. Maen nhw'n eistedd ac mae Jamila'n rhoi darn o gacen fanana i bawb. Mae Molly'n gollwng hanner ei chacen ar y llawr, ac maen nhw'n clywed, "Cwac cwac!" wrth i hwyaden wthio ei phig trwy fwlch yn y llawr a bwyta'r gacen. "O na! Fy nghacen," mae Molly'n llefain. "Rwyt ti'n creu llanast eto, Molly!" meddai'r lleill. Mae Molly'n chwilio yn ei sach deithio am rywbeth i'w roi yn y twll yn y llawr. Nid yw'n gallu dod o hyd i unrhyw beth yn ei bag, ond mae'n sylwi ar lwy ryfedd yng nghornel y caban. Mae hi'n syllu ar olwg anarferol y llwy cyn ei rhoi yn y twll.

Yn sydyn, mae'r golau yn y caban yn newid. Mae Molly'n codi'r llwy. Wrth gamu allan, mae'r gwlyptiroedd yn edrych yn wahanol. Maen nhw'n clywed camau uchel a sŵn ergydio. "Glou!" mae Dylan yn gweiddi, ac mae'r lleill yn ei ddilyn wrth iddo redeg i mewn i'r cyrs hir i guddio. Mae'r ffrindiau'n syllu allan ac yn methu credu eu llygaid! Mae pum deg o filwyr Rhufeinig yn gorymdeithio a churo eu tarianau. Maen nhw wedi teithio'n ôl mewn amser!

## EICH TRO CHI:

Edrychwch o gwmpas a dychmygwch y gwlyptiroedd amser maith yn ôl. Ysgrifennwch un frawddeg sy'n dechrau gyda'r geiriau:

'Amser maith yn ôl, roedd y lle yma.........

Saib Stori 4

# Y Bryn Caregog



Maen nhw'n gadael y caban ac yn cerdded tuag at y bryn caregog lle mae'r milwyr Rhufeinig yn gweithio.

Mae un o'r milwyr Rhufeinig yn gweld y pedwar ffrind ac yn galw arnyn nhw. Mae'n pwyntio tuag at gert gyda sachau ar y cefn. "Mae e' eisiau i ni dynnu'r gert!" meddai Luca. "Gwell i ni wneud beth mae e' eisiau." Maen nhw'n gafael yn y dolenni ar y gert a'i thynnu i gopa bryn caregog. "Edrychwch ar eu hoffer nhw a'r holl greigiau yna. Tybed beth maen nhw'n ei adeiladu," meddai Luca.

"Maen nhw'n adeiladu'r morglawdd" atebodd Dylan, ac mae'r ffrindiau'n edrych o gwmpas yn syfrdan.

## EICH TRO CHI:

Pam ydych chi'n meddwl bod pobl wedi adeiladu morgloddiau yma? Ysgrifennwch un frawddeg sy'n esbonio'ch syniad.

Saib Stori 5

# Y Mannau Gwylio ar y Llecyn Cyfoethog ar gyfer Gweision y Neidr



Mae'r pedwar ffrind yn cerdded ar hyd y llwybr tan iddyn nhw gyrraedd y mannau gwylio.

O'r mannau gwylio, fe allan nhw weld dŵr, cyrs ac adar yn symud ar draws y dirwedd.


## EICH TRO CHI:


Darllenwch y wybodaeth ar yr arwyddion.

Allwch chi weld unrhyw adar neu weision y neidr? Allwch chi restru eu henwau?

Ysgrifennwch un ffaith rydych chi wedi'i dysgu.

Arhoswch am eiliad. Oes yna un peth sy'n gwneud i chi deimlo'n dawel yma?





Saib Stori 6

# Y Bont Rwber

Ar ôl y Llecyn Cyfoethog ar gyfer Gweision y Neidr, maen nhw'n dilyn y llwybr wrth iddo droi i'r dde, ac yna i'r chwith. Mae'r llwybr yn newid o dan eu traed. Mae'n teimlo'n sbringar ac yn feddal.

## EICH TRO CHI:

Cerddwch yn araf a gwrandewch.
Ysgrifennwch dri gair i ddisgrifio'r seiniau rydych chi'n eu clywed.
Pa liwiau ydych chi'n eu gweld?



Saib Stori 7

# Y Goleudy

Wrth i'r awyr dywyllu, mae'r ffrindiau'n cyrraedd y goleudy. Mae Molly'n gollwng y llwy anarferol eto. Y tro yma mae'n syrthio i mewn i dwll yn y ddaear ac fel o'r blaen, mae'r awyr yn newid lliw ac mae fflach o olau. Maen nhw wedi teithio mewn amser eto! Yna, mae hen ddyn gyda barf wen hir yn rhedeg allan o'r tywyllwch. "Mae'r golau rhybuddio coch wedi diffodd ac mae 'na long! Mae 'na long!" Mae'r pedwar ffrind yn edrych allan i'r môr. Maen nhw'n gallu gweld llong yn nesáu. Mae Luca'n rhedeg i fyny grisiau'r goleudy. Ar y top, mae'n tynnu'r dortsh allan o'i boced ac yn gwneud iddi fflachio trwy'r ffenestr. Mae'r hen ddyn yn dod i mewn ac yn neidio i fyny ac i lawr, "Gwych, gwych! Da iawn, fachan!" Ac maen nhw'n gwylio wrth i'r llong droi'n araf a mynd yn ôl allan i'r môr, gan osgoi'r creigiaubanciau tywod a'r dŵr bas. Mae Luca'n dangos y dortsh i'r hen ddyn ac yn dweud wrtho am ei chadw cyn rhedeg yn ôl i lawr grisiau'r goleudy.

## EICH TRO CHI:

Beth mae'r golau'n rhybuddio llongau amdano?

Edrychwch o amgylch. Pam allai'r lle yma fod yn beryglus yn y nos?



Saib Stori 8

# Haid o Ddrudwy



Mae'r grŵp yn gofyn i Molly ddod â'i llwy deithio allan eto fel y gallan nhw fynd yn ôl i'r presennol. Mae Molly'n rhoi'r llwy ar y llawr, mae clec fawr ac mae'r awyr yn newid lliw eto. Mae popeth yn dawel. Yn araf bach, mae'r ffrindiau'n mynd yn ôl i'r caban.

Mae'r haul yn suddo'n isel, gan baentio'r awyr yn oren a phorffor golau. Mae'r aer yn teimlo'n oerach ac mae popeth yn dawel. Maen nhw yn ôl yn y presennol.

Yna, mae Jamila'n pwyntio tuag at yr awyr.

Dim ond ambell aderyn sydd yno i ddechrau – siapiau bach tywyll yn symud ar draws yr awyr. Yna mae mwy'n ymddangos. Ac yn fuan, mwy eto. O fewn munudau, mae cannoedd o ddrudwy'n hedfan gyda'i gilydd, yn troi a throelli'n un.

"Maen nhw'n symud fel ton," mae Molly'n sibrwd.

Mae'r haid yn ymestyn, crebachu, a phlygu i mewn ar ei hun. Mae'r adar yn disgyn yn isel, ac yna'n codi eto, gan greu patrymau chwyrlïol sy'n tonni ar draws awyr y nos. Mae'n teimlo fel petai'r awyr ei hun yn fyw.

Mae Dylan yn gwylio'n ddistaw wrth i Pete lanio ar ei ysgwydd.

"Maen nhw wedi bod yn gwneud hyn ers canrifoedd," meddai. "Ymhell cyn ein hamser ni."

Mae'r ffrindiau'n sefyll gyda'i gilydd, yn rhyfeddu. Ar ôl eu holl gerdded a dychmygu, mae'r eiliad hon yn teimlo fel rhodd – mae Gwastadeddau Gwent yn rhannu un o'u straeon gorau.



# EICH TRO CHI:

Allwch chi weld unrhyw adar? Sefwch yn llonydd a gwyliwch nhw'n dawel am ychydig. Sylwch ar eich anadl.

Sut mae gwylio'r adar yn symud gyda'i gilydd yn gwneud i chi deimlo?

Ysgrifennwch baragraff byr sy'n disgrifio:

Sut mae'r awyr yn edrych.

Sut mae'r adar yn symud.

Sut mae eu gwylio nhw'n gwneud i chi deimlo.

Dyma rai geiriau i'ch helpu i ysgrifennu'ch disgrifiad, ond fe allech chi feddwl am rai eraill:

haid, chwyrlïo, heidio, min nos, patrymau, gyda'i gilydd, cytgord, syndod.

## Her Ychwanegol

Dychmygwch eich bod chi'n un o'r drudwy. Ysgrifennwch dair brawddeg sy'n disgrifio:

Beth allwch chi ei weld oddi tanoch.

Pam rydych chi'n aros yn agos i'r haid.

**Mae drudwy'n casglu yng Ngwastadeddau Gwent bob nos rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror. Os oes modd, dewch yn ôl un noson pan fydd yr haul yn machlud i weld haid go iawn a phrofi'r eiliad hudol hon drosoch eich hun.**

# I'w gwblhau gartref

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | G | H | C | A | Y | D | U | E | L | O | G |
| T | LL | W | Y | B | R | B | L | Y | M | T | E |
| U | W | Y | L | D | E | O | R | T | L | Ô | E |
| C | A | A | E | Y | S | R | N | D | C | D | C |
| F | G | I | F | I | P | O | L | N | I | O | A |
| U | Y | D | E | W | P | T | A | A | T | C | S |
| B | E | A | L | A | R | CH | I | F | G | S | N |
| T | C | B | A | U | E | N | H | R | M | I | E |
| W | S | N | U | D | I | T | E | C | O | H | W |
| P | E | O | N | E | A | S | N | M | H | E | Y |
| O | S | D | F | M | O | R | G | L | A | W | DD |
| L | R | U | T | A | N | Y | H | C | I | A | B |
| S | RH | M | C | O | E | C | R | I | D | T | U |
| A | R | H | E | G | S | U | T | B | F | I | C |

LEFELAU
MUDO
NATUR
ADAR
RHUFEINIAID
ALARCH

HWYAID
MORGLAWDD
CASNEWYDD
CYRS
ÔL TROED
LLWYBR

HAID
GWLYPTIROEDD
GOLEUDY
PONT